60 mun

# Effaith Ddynol ar Wystrys

### Yr offer sydd ei angen (fesul grŵp)

- Copi o 'Arbrawf Microffibr' wedi ei argraffu, un i bob grŵp.
- Samplau ffabrig (ffibrau synthetig a naturiol)
- Siswrn
- 5 jar (gyda chaeadau)
- Chwyddwydr neu ficrosgop (dewisol)
- Dŵr tap
- 5 hidlydd coffi
- Twndis a chynhwysydd gwag
- Dyfais y gellir ei ddefnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd

### I gwblhau'r gweithgaredd

1. Rhannwch y fideo 'Stop Ocean Threads' gyda'r dysgwyr – www.tiramor.cymru/wystrysbrodorol (Adnodd 2).

2. Esboniwch fod wystrys yn hidlyddion naturiol sy'n helpu i gadw dyfroedd yn lân trwy dynnu gronynnau a malurion o'r dŵr. Nodwch y gall gweithgareddau dynol gyflwyno llygryddion, gan gynnwys microffibrau o ddillad, i ecosystemau dyfrol.

3. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol:
   - Beth yw microffibrau, ac o ble maen nhw'n dod?
   - Sut mae microffibrau yn mynd i mewn i afonydd, baeau a chefnforoedd?
   - Pa effaith y gallai microffibrau eu cael ar wystrys a bywyd morol arall?
   - Sut y gallai microffibrau effeithio ar allu wystrys i hidlo dŵr?

4. Rhannwch y daflen waith 'Arbrawf Microffibr' gyda phob grŵp. Anogwch y dysgwyr i archwilio sut mae microffibrau o ffabrigau synthetig a naturiol yn ymddwyn mewn dŵr a thrafod eu heffaith ar wystrys ac ansawdd dŵr.

5. Cefnogwch y dysgwyr i gofnodi eu canfyddiadau.

6. Trafodwch y canfyddiadau. Pa wahaniaethau wnaeth y dysgwyr sylwi arnynt rhwng ffibrau synthetig a naturiol? Sut y gall microffibrau effeithio ar allu wystrys i hidlo dŵr? Pa atebion allai helpu i leihau llygredd microffibr mewn amgylcheddau dyfrol?

7. Rhowch gyfle i'r dysgwyr ymchwilio ac ystyried atebion ymarferol i leihau llygredd microffibr yn eu bywydau bob dydd. Gall hyn gynnwys defnyddio bag golchi Guppyfriend neu bêl Cora i ddal microffibrau wrth olchi; gosod hidlydd ar beiriannau golchi i ddal ffibr; golchi dillad yn llai aml; dewis ffabrigau naturiol (sy'n dadelfennu'n gyflymach na ffibrau synthetig); defnyddio dŵr oerach a chylchoedd golchi ysgafn i leihau diosg a chodi ymwybyddiaeth am lygredd microffibr.

8. Cefnogwch y dysgwyr i greu cyflwyniad byr neu boster i gyflwyno ffyrdd o leihau llygredd microffibr.

# Arbrawf Microffibr

## Byddwch angen

- Samplau ffabrig (ffibrau synthetig a naturiol)
- Siswrn
- 5 jar (gyda caeadau)
- Chwyddwydr neu ficrosgop (dewisol)
- Dŵr tap
- 5 hidlydd coffi
- Twndis a chynhwysydd gwag

### CAM 1
Torrwch 5 sampl ffabrig (ffibrau synthetig a naturiol) yn ddarnau bach, 1-2 $cm^2$.

### CAM 2
Rhowch bob sampl ffabrig mewn jariau ar wahân, gan lenwi pob jar dri chwarter llawn dŵr.

Caewch y caead yn dynn.

### CAM 3
Llenwch y tabl isod gyda manylion am bob sampl ffabrig ac arsylwadau cychwynnol cyn eu cynhyrfu.

### CAM 4
Ysgwydwch bob jar am 1-2 funud i ysgogi cynnwrf.

Cofnodwch unrhyw newidiadau gweladwy yn y tabl isod.

### CAM 5
Arllwyswch gynnwys pob jar trwy hidlydd coffi wedi'i osod mewn twndis i mewn i gynhwysydd gwag isod.

Cofnodwch unrhyw sylwadau am yr hyn sy'n cael ei ddal gan yr hidlydd yn y tabl isod.

| ENW FFABRIG | NATURIOL/ SYNTHETIG | ARSYLWADAU CYCHWYNNOL | SYLWADAU AR ÔL CYNNWRF | ARSYLWADAU HIDLO |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |


**TRAFOD**

Sut y gallai microffibrau effeithio ar allu wystrys i hidlo dŵr?

**TASG YCHWANEGOL** Dewisol

**Ymchwiliwch a chrëwch gyflwyniad neu boster sy'n cynnig atebion ymarferol i leihau llygredd microffibr.**

*Canolbwyntiwch ar gamau gweithredu y gall unigolion a chymunedau eu cymryd, gan gynnwys offer, technolegau a newidiadau i'w ffordd o fyw i leihau nifer y microffibrau sy'n cael eu rhyddhau i'r amgylchedd. Byddwch yn barod i rannu eich cyflwyniad neu boster gyda'r dosbarth a thrafodwch yr atebion rydych yn ei gynnig!*



*Mae wystrys brodorol yn hidlo dŵr y môr i yfed ffytoplancton a sylweddau organig – mae hyn yn arwain at ddŵr glanach a chliriach.*